# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

## Siarad Gyda Fi Cam 2 - Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC).

DRAFFT

## PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae gweithredu'n gynnar i gefnogi babanod a phlant i ddatblygu eu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) yn hollbwysig. Mae sgiliau SLC yn hanfodol i'n lles, maent yn siapio ein cydberthnasau ac yn greiddiol i'n dysgu. Mae 1 o bob 5 o blant a phobl ifanc yn cael trafferth gyda datblygiad[1] eu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) ac mae gan dros 10% anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hirdymor (SLCN) sy'n creu rhwystrau i gyfathrebu neu ddysgu o ddydd i ddydd[2].

Mae babanod, plant a phobl ifanc â SLCN mewn mwy o berygl o amrywiaeth o ganlyniadau andwyol, gan gynnwys iechyd emosiynol a meddwl gwael a risg uwch o ddiweithdra. Mae sgiliau SLC yn dilyn graddiant cymdeithasol, gyda phlant sy'n byw mewn tlodi mewn mwy o berygl o fod ag SLCN. Roedd y plant hyn hefyd ymhlith y rhai mwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig.

Mae effaith bosibl SLCN ar ganlyniadau plant yn frawychus, ond mae adnabod a chefnogi plant yn gynnar yn effeithiol yn lleihau'r risg o ganlyniadau negyddol ac yn lleihau'r bwlch o ran anfantais.

Yn 2020 lansiwyd cynllun cyflawni 'Siarad Gyda Fi'  i ddarparu cymorth SLC i blant rhwng 0 a 5 oed ledled Cymru. Ers ei lansio, mae Siarad Gyda Fi wedi dangos cynnydd ar draws amcanion. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno adeiladu ar lwyddiant Siarad Gyda Fi i ymestyn y cynllun gwaith a chynnwys ffocws ar blant rhwng 5 ac 11 oed. Bydd cynllun gwaith blynyddoedd cynnar Siarad Gyda Fi yn parhau i gael ei gyflwyno ochr yn ochr â cham 2 y rhaglen.

Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2026 i gael barn rhanddeiliaid ar draws y sectorau Blynyddoedd Cynnar, Iechyd ac Addysg i sicrhau bod yr amcanion arfaethedig yn gydnaws â'r ystod oedran 5 i 11. Bydd barn babanod, plant a phobl ifanc hefyd yn cael ei geisio yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae cydweithwyr o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru yn glir, er bod ffocws ar atal yn y blynyddoedd cynnar yn parhau i fod yn bwysig, mae ar blant y tu hwnt i'r ystod oedran hon angen mynediad at gymorth effeithiol SLC wedi'i dargedu ac sydd ar gael yn gyffredinol hefyd.

---

[1] Lleferydd ac Iaith y DU, 2023 Listening-to-unheard-children-report-FINAL.pdf

[2] Afasic Beth yw anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLCN)? - Afasic

**Tymor hir** - Os nad yw SLCN yn cael ei nodi a'i gefnogi'n gynnar, gall hyn arwain at ganlyniadau negyddol ar draws cwrs bywyd. Rydym yn anelu at dorri'r cylch hwn rhwng cenedlaethau.

**Atal -** Trwy nodi SLCN yn gynnar a rhoi ymyriadau ar waith mewn da bryd, gallwn atal problemau rhag gwaethygu a sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth iawn, gan y bobl iawn, ar yr adeg iawn.

**Integreiddio–** Bydd Cam 2 Siarad Gyda Fi yn cyfrannu at y 7 nod llesiant o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn benodol:

*Cymru lewyrchus* – Mae gan blant sydd wedi caffael sgiliau SLC well cyfle i lwyddo i gael canlyniadau cadarnhaol yn ddiweddarach yn eu bywydau, fel cyrhaeddiad addysgol o safon dda, gwell iechyd meddwl, mwy o botensial o ran cyflogadwyedd a chydraddoldeb cymdeithasol.

*Cymru iachach* – Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yn rhaid blaenoriaethu SLC fel dangosydd lles plant a'i drin fel mater iechyd cyhoeddus.

*Cymru sy'n fwy cyfartal* – Mae magu sgiliau ieithyddol yn gynnar yn elfen allweddol yn y broses o greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). Bydd darparu cymorth ar gyfer SLC yn yr ystod oedran 5 i 11, yn ogystal â'r blynyddoedd cynnar, yn helpu i hybu hyn ymhellach.

*Cymru o gymunedau cydlynus* – Mae gan gyfradd sylweddol o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ynghyd â dynion ifanc sy'n ddi-waith am gyfnod hir anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hirdymor (SLCN). Bydd hybu a chefnogi'r broses o gael iaith yn gynnar yn cyfrannu at greu cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – Bydd hybu datblygiad iaith cynnar yn y Gymraeg yn cyfrannu at strategaeth: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.* Bydd darparu cymorth dwyieithog ar gyfer datblygu iaith yn helpu i alluogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru.

**Cydweithrediad** - Drwy weithio gydag arbenigwyr ym meysydd y Blynyddoedd Cynnar, Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg, gallwn lywio ein trywydd cenedlaethol mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan adeiladu ar yr arfer da y gwyddom sy'n bodoli yn ein hawdurdodau lleol fel y gwelir drwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

**Cyfranogiad–** Rydym wedi cydweithio â Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT) a chydweithwyr mewnol Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynnig hwn. Bydd yr ymarfer ymgynghori yn helpu i sicrhau y bydd gan y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig lais wrth fynd ati i ddatblygu'r cynllun.

**Effaith** Gwyddom o dystiolaeth wedi'i chyhoeddi ac anecdotaidd bod y galw am SLCN yn tueddu i gynyddu ac i fod yn fwy cymhleth ymhlith plant oedran ysgol (e.e. Llywodraeth Cymru, 2025).[3] Mae tystiolaeth o gynllun cyflawni SLC cyfredol Llywodraeth Cymru yn awgrymu y gall canolbwyntio ar atal gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau. Mae angen ailadrodd y dull strategol o gefnogi SLC yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant hŷn os ydym am gyrraedd pawb sydd angen cymorth.

Os nad ydym yn buddsoddi mewn atal, rydym o bosibl mewn perygl o'r canlynol:

- Plant sy'n symud o leoliadau blynyddoedd cynnar gyda gweithlu sy'n fedrus mewn cefnogi SLC, i leoliadau addysg lle nad yw'r hyfforddiant hwn ar gael yn gyson neu nad yw'n cael ei roi ar waith yn gyson ar hyn o bryd.
- Mae plant nad yw eu SLCN wedi'i nodi a'u cefnogi yn y blynyddoedd cynnar, mewn perygl o 'lithro drwy'r rhwyd' ac o bosibl brofi canlyniadau negyddol.
- Cynnydd yn y galw am wasanaethau arbenigol sydd eisoes o dan bwysau sylweddol.

Mae risgiau posibl cyhoeddi cynllun cyflawni a ehangwyd i gynnwys plant rhwng 5 ac 11 oed, yn cynnwys:

- Mwy o alwadau ar y gweithlu addysg trwy hyfforddi ar gyfer a gweithredu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Ni fydd y gweithlu addysg yn blaenoriaethu SLC uwchlaw gofynion a disgwyliadau eraill sy'n cystadlu am amser a sylw.
- Mwy o alw am wasanaethau arbenigol trwy nodi plant â SLCN yn effeithiol

**Costau ac Arbedion -** Rydym yn ymgynghori i sefydlu blaenoriaethau SLC ar gyfer Cymru. Ar ôl i'r rhain gael eu sefydlu, byddwn yn gallu amcangyfrif costau. Bydd cyllideb y Gangen Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Siarad Gyda Fi yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgarwch blynyddoedd cynnar ar y cynllun cyflawni. Rhagwelir y bydd camau gweithredu eraill yng ngham 2 Siarad Gyda Fi yn cael eu hariannu gan y timau sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

[3] Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar ôl y pandemig ar gyfer babanod a phlant bach cyfnod y pandemig sydd bellach rhwng 5 ac 8 oed mewn addysg amser llawn yng Nghymru

DRAFT

## CASGLIAD

**Sut y mae pobl y mae’r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi’u cynnwys yn y gwaith o’i ddatblygu?**

Rydym yn y broses o drefnu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau bod y bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig yn cael y cyfle i gyfrannu ar gam cynnar. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori'n benodol gyda phlant a phobl ifanc drwy Plant yng Nghymru. Mae fersiwn plant o'r ddogfen ymgynghori ar gael i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen yn hygyrch i bawb.

Bydd Mentoriaid Cymunedol hefyd yn cael cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad gyda ffocws ar Wrth-Hiliaeth.

Mae'r Gymraeg a'r Saesneg wrth wraidd y cynllun cyflawni arfaethedig ac mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gefnogi datblygiad iaith plant ym mhob iaith y maent yn eu profi.

**Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Bydd cynllun cyflawni Cam 2 Siarad Gyda Fi yn cyfrannu at y 7 nod lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn benodol:

*Cymru lewyrchus* – Mae gan blant sydd wedi caffael sgiliau SLC well cyfle i lwyddo i gael canlyniadau cadarnhaol yn ddiweddarach yn eu bywydau, fel cyrhaeddiad addysgol o safon dda, gwell iechyd meddwl, mwy o botensial o ran cyflogadwyedd a chydraddoldeb cymdeithasol.

*Cymru iachach* – Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yn rhaid blaenoriaethu SLC fel dangosydd lles plant a'i drin fel mater iechyd cyhoeddus.

*Cymru sy'n fwy cyfartal* – – Mae magu sgiliau ieithyddol yn gynnar yn elfen allweddol yn y broses o greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). Bydd darparu cymorth ar gyfer SLC yn yr ystod oedran 5 i 11, yn ogystal â'r blynyddoedd cynnar, yn helpu i hybu hyn ymhellach.

*Cymru o gymunedau cydlynus* – Mae gan gyfradd sylweddol o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ynghyd â dynion ifanc sy'n ddi-waith am gyfnod hir anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hirdymor (SLCN). Bydd hybu a chefnogi'r broses o gael iaith yn gynnar yn cyfrannu at greu cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – Bydd hybu datblygiad iaith cynnar yn y Gymraeg yn cyfrannu at strategaeth: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.* Bydd darparu cymorth dwyieithog ar gyfer datblygu iaith yn helpu i alluogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru.

Os nad ydym yn buddsoddi mewn atal, rydym o bosibl mewn perygl o'r canlynol:

- Plant sy'n symud o leoliadau blynyddoedd cynnar gyda gweithlu sy'n fedrus mewn cefnogi SLC, i leoliadau addysg lle nad yw'r hyfforddiant hwn ar gael yn gyson neu nad yw'n cael ei roi ar waith yn gyson ar hyn o bryd.
- Mae plant nad yw eu SLCN wedi'i nodi a'u cefnogi yn y blynyddoedd cynnar, mewn perygl o 'lithro drwy'r rhwyd' ac o bosibl brofi canlyniadau negyddol.
- Cynnydd yn y galw am wasanaethau arbenigol sydd eisoes o dan bwysau sylweddol.

Mae risgiau posibl cyhoeddi cynllun cyflawni a ehangwyd i gynnwys plant rhwng 5 ac 11 oed, yn cynnwys:

| Risg | Effaith | Tebygolrwydd | Lliniaru |
|---|---|---|---|
| **Diffyg parodrwydd rhanddeiliaid i gymryd rhan** | Uchel | Uchel | Cynnwys rhanddeiliaid yn gynnar trwy weithdai llunio ar y cyd; cyfathrebu manteision clir sy'n gysylltiedig â nodau yn y cwricwlwm; creu deunyddiau briffio sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Hyfforddiant annigonol i staff** | Uchel | Canolig | Datblygu modiwlau hyfforddi byrion; cynnwys enghreifftiau o ystafelloedd dosbarth go iawn; cynnig cefnogaeth barhaus trwy gymuned ymarfer. |
| **Mwy o alw ar y gweithlu addysg trwy hyfforddi ar gyfer a gweithredu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth** | Uchel | Uchel | Cynnwys rhanddeiliaid yn gynnar trwy weithdai llunio ar y cyd; cyfathrebu manteision clir sy'n gysylltiedig â nodau yn y cwricwlwm a gofynion ADY; gweithio i ymgorffori SLC yn addysg gychwynnol athrawon |
| **Mesur a Gwerthuso Gwael** | Uchel | Canolig | Diffinio canlyniadau mesuradwy nawr; defnyddio dulliau syml ar gyfer gosod llinell sylfaen a gwaith dilynol; rhannu llwyddiannau cynnar yn eang. |
| **Ymgysylltiad cyfyngedig gan rieni** | Canolig | Canolig | Creu adnoddau hawdd eu defnyddio i rieni; defnyddio cylchlythyrau a chyfryngau |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cymdeithasol; Partneru gyda Chanolfannau Cymunedol. |
| **Cyfyngiadau ar gyllid neu adnoddau** | Uchel | Canolig | Nodi strategaethau â chost isel; ceisio partneru â byrddau iechyd ac elusennau lleol; adeiladu cynllun cynaliadwyedd yn gynnar. |
| **Amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol wedi'i anwybyddu** | Canolig | Canolig | Sicrhau bod adnoddau'n ddwyieithog; cynnwys enghreifftiau sy'n berthnasol i gymunedau amrywiol; ymgynghori ag arbenigwyr iaith. |
| **Problemau Mynediad Digidol** | Canolig | Canolig | Darparu dewisiadau amgen all-lein; profi offer digidol ar gyfer cydnawsedd; cynnig canllawiau ar gyfer gweithredu ar lefelau isel o ran technoleg. |
| **Mwy o alw am wasanaethau arbenigol trwy nodi plant â SLCN yn effeithiol** | Uchel | Canolig | Ceisio partneru â byrddau iechyd lleol, llunio atebion ar y cyd, cynorthwyo gyda rhoi cymorth ataliol ar waith |

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a’r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu’n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae cynllun cyflawni Cam 2 Siarad Gyda Fi yn cael ei gynnig i liniaru'r risgiau a nodir uchod er mwyn sicrhau bod sgiliau SLC plant yn cael eu cefnogi'n briodol ar lefel gyffredinol ac ar lefel gweithgaredd wedi'i dargedu yn y blynyddoedd cynnar, yn ogystal ag yn yr ystod oedran 5 i 11.

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol ar y cam cynnar hwn i leihau'r perygl na fydd SLC yn cael ei flaenoriaethu gan y bydd y camau gweithredu yn y cynllun yn canolbwyntio ar flaenoriaethau rhanddeiliaid.

Bydd y ffocws ar gymorth ataliol, cyffredinol ac wedi'i dargedu, o fewn cynllun cyflawni Cam 2 Siarad Gyda Fi yn anelu at leihau'r galw am wasanaethau arbenigol gan y bydd y plant iawn yn cael eu cefnogi gan y bobl iawn ar yr adeg iawn.

Mae mesurau lliniaru sy'n benodol i bob risg a nodwyd wedi'u nodi yn y tabl uchod.

**Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu fel dogfen waith fewnol a fydd yn cynnwys nodau a mesurau effaith penodol clir ochr yn ochr â phob cam y cytunwyd arno yn y cynllun cyflawni. Bydd y rhain yn sicrhau y bydd y canlyniadau'n cael eu mesur a'u gwerthuso. Bydd mesurau canlyniadau a awgrymir mewn ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hymgorffori fel y bo'n briodol.

Bydd cyflwyniad ynghylch ei effaith yn cael ei ysgrifennu ar ddiwedd y cynllun a'i rannu â rhanddeiliaid perthnasol.

DRAFFT